



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

## Adroddiad ar Brosiect a Chostiadau Mentrau ar Safle Ffocws

Ar gyfer

Alun Thomas  
Upper Pendre  
Llan-gors  
Aberhonddu  
LD3 7TT

**Paratowyd gan:**

Rhidian Jones

ar ran

Kite Consulting  
Dunston Business Village  
Dunston  
Staffordshire  
ST18 9AB



Dyddiad: Medi 2017

Ffôn: [07889 182 364](tel:07889182364)

Ebost: [rjlivestocksystems@btinternet.com](mailto:rjlivestocksystems@btinternet.com)



<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
<b>1 Crynodeb Gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>2 Cefndir</b>	<b>4</b>
<b>3 Prosiect Cyswllt Ffermio – A oes Rôl i Gnydau Ryg yng Nghymru?</b>	<b>5</b>
<b>4 Materion i'w trafod yn yr adroddiad hwn</b>	<b>5</b>
<b>5 Meincnodi</b>	<b>6</b>
<b>6 Dyranïad gorbenion</b>	<b>7</b>
<b>7 Costiadau cnydau</b>	<b>8</b>
Gwenith	8
Barlys	9
Rhygwenith	9
Rhyg	10
<b>8 Costiadau da byw</b>	<b>11</b>
Llaeth	11
<b>9 Trafodaeth</b>	<b>12</b>

**Atodiad 1**      Maint Elw Gros y Mentrau



## 1 Crynodeb Gweithredol

- ☐ Fferm gymysg 180 ha (450 erw) yw Upper Pendre, sydd â buches laeth o 180 o fuchod, gwartheg eidion, ac erwau sylweddol o rawnfwydydd, i'w defnyddio gartref yn bennaf.
- ☐ Mae cymysgedd y mentrau ar y fferm a'r modd y mae'r systemau ffermio wedi esblygu yn golygu bod da byw a chnydau'n cael eu trosglwyddo'n aml rhwng y mentrau. Mae hyn yn peri ei bod yn anodd pennu pa fentrau sy'n gwneud orau. Yn 2017 gwnaed cryn ymdrech i ddarparu gwybodaeth a fyddai o leiaf yn ddechrau ar y dasg o feincnodi pob menter.
- ☐ Hefyd, fel rhan o brosiect Cyswllt Ffermio (safle ffocws) mae'r fferm wedi tyfu Rhyg gaeaf yn 2016-17 i geisio penderfynu pa mor addas yw hwnnw i'w ddefnyddio yng Nghymru. Er bod y cnwd wedi cael ei dyfu a'i gynaeafu, bydd y prosiect yn parhau gan fod angen pennu ansawdd y grawn a'i werth fel bwyd, yn ogystal â chlориannu perfformiad y da byw.
- ☐ Mae dadansoddiad yr Elw Gros a Net yn awgrymu mai'r fuches laeth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r tir, ac wedyn tyfu gwenith.
- ☐ Serch hynny, fel fferm wirioneddol gymysg mae yna lawer o faterion sy'n rhan o'r cwestiwn, megis ffitio i mewn i gylchdro, rannu'r llwyth gwaith, gwndwn i greu ffrwythlondeb a darparu tail buarth etc.
- ☐ Nid yw'r rhyg gaeaf yn edrych yn ffafriol yn yr adroddiad hwn, ond nid yw blwyddyn yn ddigon i roi ateb pendant ynglŷn â'i addasrwydd.
- ☐ Y fuches laeth sy'n dangos yr enillion gorau, ond fe fydd angen buddsoddi'n sylweddol yn y cyfnod nesaf o ryw bum mlynedd i uwchraddio'r offer godro. Bydd hynny'n golygu y bydd angen gwerthusiad a chyngor manwl gan ymgynghorwyr llaeth arbenigol fel Kite Consulting.
- ☐ Nid system sugno eidion yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r tir ar fferm sydd â llawer o stoc. Ond, fe allai system o besgi gwartheg sy'n groesiad rhwng eidion a llaeth fod yn rhan o'r system o hyd.
- Pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i roi'r gorau i gynhyrchu llaeth oherwydd lefel y buddsoddiad sy'n angenrheidiol, y posibilrwydd y bydd prisiau llaeth yn amrywio yn y dyfodol a diffyg diddordeb o du'r genhedlaeth nesaf, yna yr opsiwn ail orau fyddai parhau â chnydau â'r, sy'n ymddangos yn gynhyrchiol ac effeithlon iawn. Yn fy marn i, fyddai cynyddu'r fuches sugno ar fferm mor dda ddim yn opsiwn da ac mae'n bosibl bod mwy o arian i'w wneud gyda chryn dipyn yn llai o risg drwy fagu heffrod llaeth. Er hynny, rwy'n sylweddoli nad yw hyn yn rhoi'r un lefel o foddhad mewn swydd â chadw'ch buches chi'ch hun.
- ☐ Mae'r adroddiad hwn yn fan cychwyn da at gadw cofnodion a meincnodi yn y dyfodol. Argymhellir defnyddio offer y diwydiant, fel Farmbench, i'r eithaf yn y dyfodol. Mae'n debyg y bydd y casgliad o systemau'n cynnwys llaeth yn fuan yn ogystal â thir â'r a da byw.



## 2 Cefndir

Mae Upper Pendre yn sefyll ar gyrion pentref Llan-gors ger Aberhonddu. Fferm laeth, cig eidion a thir âr cymysg yw hon ar 180 hectar (450 erw) y mae hanner ohono'n dir addas ar gyfer cnydau. Ceir cymysgedd o dir ym mherchnogaeth y ffermwyr a thir ar rent. Mae'r fferm yn codi i 700 troedfedd uwchlaw lefel y môr a cheir 30 modfedd o lawiad y flwyddyn. Lôm tywodfaen coch yw'r pridd yn bennaf ac mae'n bur gadarn at ei gilydd er y gall ddioddef yn sgil ei gywasgu a'i sathru. Mae tir glas a phorthiant y fferm yn cynnwys 92 ha (230 erw) o dir glas parhaol a thir glas ar gylchdro.

Mae yno fuches o 175 o fuchod Friesian ac o'r rhain mae 80 wedi'u bridio'n bur i gynhyrchu heffrod llaeth cadw ac mae'r gweddill yn cael eu croesi â theiwr cig eidion. Mae lloi llaeth du a gwyn yn cael eu magu ar system cig eidion teiwr tra bo'r croesiadau eidion yn cael eu defnyddio naill ai fel anifeiliaid cadw mewn buches sugno o 30 o fuchod (ar hyn o bryd) neu eu pesgi. Mae epil y fuches sugno hefyd yn cael eu pesgi ar y fferm. Mae cyfyngiadau TB yn atal gwartheg stôr rhag cael eu gwerthu fel rheol, er y gallen nhw gael eu gwerthu i unedau pesgi TB.

Mae'r fuches laeth yn rhoi 9,000 o litrau ar gyfartaledd ac mae ganddi fwlc hloia o 411-417 o ddiwrnodau. Mae arni angen rhyw 40 o heffrod cadw bob blwyddyn. Yn ddiweddar cafwyd problemau mastitis sydd wedi codi'r gyfradd ddifa ac felly mae gwasanaeth Genus RMS wedi'i ddefnyddio i wella'r cyfraddau cenhedlu ac i gynhyrchu mwy o heffrod llaeth. Oherwydd y system ffermio gymysg, nid yw'r buchod llaeth yn fuchod llaeth eithriadol ac mae rhywfaint o ymdrech yn cael ei wneud i gadw priodweddau tebycach i wartheg eidion. Braidd yn gymhleth yw'r systemau cig eidion a chan fod y gwartheg eidion yn dod o sawl ffynhonnell mae angen gwahanol ddulliau rheoli. Mae'r ffaith bod y fuches laeth yn bwrw lloi gydol y flwyddyn yn cymhlethu pethau'n fwy:

- ☐ Pesgi lloi teiwr du a gwyn ar system teiwr eidion
- ☐ Pesgi lloi teiwr wedi'u croesi â buchod llaeth (a rhai heffrod) o 18-24 mis
- ☐ Gwartheg eidion tri chwarter brid o'r fuches sugno

Yn y gaeaf yr heur pob cnwd sy'n cael ei dyfu, sef 40 ha o wenith, 20 ha o farlys ac 16 ha o rygwenith fel arfer. Er hynny, yn sgil anhawster i sicrhau hadau rhygwenith o safon mae'r fferm wedi tyfu 6 ha o ryg yn 2017 ar sail treial. Mae hyn o ddiddordeb i Gyswllt Ffermio a hoffai weld a ydy rhygwenith yn gnwd sy'n addas at amgylchiadau Cymru. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r prosiect yn fanylach. Byddai cylchdro âr nodweddiadol yn golygu dwy flynedd (weithiau tair) o laswellt dros dro, wedyn dau gnwd o wenith ac un math arall o rawn cyn cael ei droi'n ôl i laswellt. Yn yr hydref y mae'r rhan fwyaf o'r glaswellt yn cael ei hau er bod rhyw 30 hectar o sofl gaeaf yn cael ei adael ar gyfer tail buarth a'i ail-hau yn y gwanwyn. Trinnir rhywfaint o'r gwenith cartref â Maxammon (ychwanegyn wedi'i seilio ar wrea) i godi lefelau'r protein ac i gadw'r cnwd. Mae hefyd yn sicrhau cynnyrch alcaliaidd i'r buchod sugno i helpu'r rwmn i weithio drwy gydbwysu porthiant asidig fel silwair glaswellt neu farlys. Mae'r holl wellt sy'n cael ei dyfu gartref yn cael ei ddefnyddio ar y fferm.

Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu'r canfyddiadau ynglŷn â'r cnwd rhyg hyd yn hyn, gan gynnwys faint a gynhyrchwyd a'r Maint Elw Gros. Nid yw'n cynnwys manylion agronomeg, gan fod hynny wedi'i wneud gan barti arall. Hyd yn hyn, nid yw'r grawn wedi'i ddadansoddi o safbwynt ei ansawdd fel porthiant ac nid yw wedi'i fwydo i'r stoc felly does dim data am ei berfformiad ar gael.

Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi'r Maint Elw Gros ar gyfer y cnydau â'r er mwyn cymharu â'r rhyg ac mae hefyd yn cynnwys costiau'r mentrau da byw mor fanwl ag y gellir ar sail y data a ddarparwyd.



### 3 Prosiect Cyswllt Ffermio – A oes Rôl i Gnydau Rhyg yng Nghymru?

#### Nodau'r prosiect:

- ☐ Gwerthuso addasrwydd rhyg fel grawn i'w gombeinio dan amodau tyfu yng Nghymru, sut mae rhyg yn gweddu i gylchdro grawn, a'i addasrwydd fel porthiant i wartheg.
- ☐ Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ofynion agronomeg y cnwd Rhyg arbrofol trwy gydol y cyfnod sefydlu a thyfu hyd at gynaeafu, gan werthuso ei addasrwydd i'r amgylchedd a chymharu'r mewnbynnau angenrheidiol gyda gofynion cnydau grawn eraill.
- ☐ Bydd Rhyg yn cael ei dyfu yn ystod gaeaf 2016/17, gan gofnodi'r tyfiant yn ofalus ar bob cam, ar ffurf ffotograffau a chofnodion yr agronomegydd, gan ddilyn llwyddiant, neu fethiant, y cnwd.
- ☐ Bydd cynnyrch grawn a gwellt y cnwd yn cael ei fesur a bydd yr ansawdd yn cael ei ddadansoddi a'i feincnodi yn erbyn cnydau grawn mwy traddodiadol. Bydd hynny'n caniatáu ar gyfer cymharu a chyfrifo gwerth y porthiant.
- ☐ Bydd ansawdd y cnwd yn cael ei ddadansoddi fel porthiant da byw, a'i gymharu gyda bwydydd grawn eraill er mwyn gwerthuso ei addasrwydd fel rhan o'r dogn ar gyfer gwartheg godro a bîff. Bydd perfformiad y da byw sy'n derbyn porthiant Rhyg yn cael ei fonitro.
- ☐ Bydd y prosiect yn gwerthuso a oes modd i Ryg gael rôl barhaus ar y fferm, tu hwnt i'r cnwd arbrofol, a ph'un ai byddai'n gallu creu cyfleoedd newydd i ffermwyr eraill leihau eu costau cynhyrchu neu ychwanegu gwerth o fewn eu system.

### 4 Materion i'w trafod yn yr adroddiad hwn

- Sawl menter integredig ar fferm gymysg sy'n ei gwneud yn anodd cloriannu canlyniadau ffisegol ac ariannol yn sgil y ffaith bod da byw a chnydau'n cael eu trosglwyddo'n fewnol a'r modd y mae costau'r mewnbynnau'n cael eu dyrannu.
  - Buches laeth o 180 o fuchod
  - Magu lloi a heffrod cadw
  - Magu buches sugno drwy groesi gwartheg llaeth â gwartheg eidion
  - Systemau pesgi cig eidion
    - Teirw llaeth pur wedi'u bridio o wartheg llaeth a chroesiadau eidion
    - Gwartheg eidion wedi'u bridio o'r fuches laeth
  - Glaswellt parhaol a thros dro
  - Cnydau âr
    - Barlys
    - Gwenith
    - Rhyg a rhygwenith
- Y genhedlaeth nesaf yn dychwelyd i ffermio
- Angen canolbwyntio ar yr hyn sy'n llwyddo yn y busnes a'r hyn sy'n gwneud arian
- Angen buddsoddiad mawr yn y seilwaith ar gyfer llaeth

#### Cynnig

- Rhoi templedi i Alun Thomas i'w llenwi â chymaint o fanylion ariannol â phosibl o gyfrifon y llynedd yn ogystal â'r cyfrifon cyfredol (sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar?). Templedi ar gyfer mewnbynnau ac allbynnau ffisegol o bob menter a dyraniad y costau sefydlog.
- Cwblhau ymarfer i feincnodi'r mentrau hyd at lefel y Maint Elw Gros ac yn fanylach os oes modd.



- ☐ Dyrannu'r costau sefydlog mor fanwl-gywir ag y bo modd ar sail yr wybodaeth a roddir
- ☐ Cloriannu effeithlonrwydd a phroffidioldeb y mentrau a chynnig sylwadau ar y cwestiwn a oes modd gwella'r cymysgedd mentrau o ystyried amcanion y ffermwyr.
- ☐ Darparu'r Maint Elw Gros ar gyfer y cnwd Rhyg gan fod hynny o ddiddordeb i Gyswllt Ffermio

### Y Templedi Mentrau a Ddarparwyd

- ☐ Tir glas
- ☐ Cnydau âr
  - Barlys
  - Gwenith
  - Rhyd a rhygwenith
- ☐ Buchod llaeth
- ☐ Magu lloi a heffrod (stoc ifanc)
- ☐ Buchod sugno
- ☐ Gwartheg eidion i'w pesgi o'r fuches sugno a chroesiadau eidion o'r fuches laeth
- ☐ Gwartheg eidion i'w pesgi o loi teirw'r fuches laeth
- ☐ Incwm arall a gorbention

## 5 Meincnodi

Mae meincnodi'n ddefnyddiol am nifer o resymau

- ☐ Hybu'r ddisgyblaeth i gadw cofnodion o berfformiad y mentrau fel bod modd dod o hyd i'r cymysgedd mentrau mwyaf proffidiol. Ar fferm fel Upper Pendre lle mae ansawdd y rhan fwyaf o'r tir yn dda, gall hyn helpu i ganfod yr enillion mwyaf proffidiol am bob hectar.
- ☐ Gall y mentrau gael eu cymharu ar y fferm â'r blynyddoedd blaenorol gan helpu i gyllidebu at y dyfodol. Mae'n debyg mai dyma'r ffordd orau i ddefnyddio gwaith meincnodi pan fydd fferm wrthi'n dechrau cofnodi'r mentrau'n fanwl.
- ☐ Gall y mentrau gael eu cymharu â data safonol y diwydiant (AHDB, FAS etc) ac â chyhoeddiadau ar gyllidebu megis John Nix, SAC Farm Management Handbook neu lyfr costiau'r ABC.
- ☐ Mae'n amlygu gwendidau a all gael eu gwella, a chryfderau i adeiladu arnyn nhw.

Gall ystyried un flwyddyn ar ei phen ei hun fod yn fan cychwyn da ond yn ddelfrydol mae angen edrych ar 2-3 blynedd er mwyn gweld tueddiadau ac er mwyn i ddigwyddiadau unigol gael eu hanwybyddu neu eu trin fel rhan o'r cyfartaledd dros y blynyddoedd. Gallai'r rhain gynnwys prisiau llaeth isel, clefydau neu fethiant cnydau oherwydd y tywydd etc.

Mae mentrau tir âr yn gymharol hawdd eu pennu o ran yr enillion am bob hectar tra gall mentrau da byw fod yn anos am ei bod yn bosibl bod peth o'r tir yn cael ei bori gan sawl math o stoc ac y gall silwair/porthiant gael eu defnyddio mewn mentrau gwahanol. Roedd y templedi a ddarparwyd yn gofyn am amcangyfrif o arwynebedd y porthiant, pwysau'r silwair mewn tunellau a phwysau'r grawn a ddefnyddiwyd gan bob menter. Bydd hyn yn cynnig golwg gychwynnol ar yr hyn sy'n rhoi'r enillion gorau am bob hectar ar y fferm.



## 6 Dyranïad gorbenïon

Gofynnodd y templed hefyd am ddyranïad y gorbenïon i bob menter, ar sail yr amcangyfrifon gorau presennol o sut mae pob menter yn defnyddio llafur, pŵer etc. Mae hyn yn caniatáu i'r Maint Elw Net gael ei gyfrifo, sef i bob pwrpas pa mor broffidiol yw pob menter ar ôl gorbenïon ond heb gynnwys incwm ar ffurf cymorthdaliadau. Dyrannu'r gorbenïon yw un o'r ymarferion mwyaf anodd yng nghyfrifon unrhyw fferm neu wrth feincnodi ac yn aml iawn fydd yr ymdrechion cynnar fawr gwell na'r dyfaliad gorau. Er hynny, mae'n fan cychwyn y gall cyfrifiadau cywirach gael eu seilio arno yn y dyfodol.

Mae'n bwysig sylweddoli bod fferm fel Upper Pendre yn fferm gymysg o'r iawn ryw ac mai cyfuniad yr holl fentrau sydd yn aml yn peri bod system gyfan y fferm yn gweithio. Nid yw dweud (er enghraifft) mai gwenith gaeaf, ar bapur, yw'r ffordd fwyaf proffidiol i ddefnyddio hectar yn cymryd i ystyriaeth y ffaith bod y glaswellt byrdymor ar y cylchdro (sy'n cael ei ddefnyddio gan y da byw) yn helpu i adeiladu ffrwythlondeb i'r cnydau gwenith na'r ffaith bod y tail buarth a geir drwy ddefnyddio gwellt y fferm yn sarn i'r da byw yn helpu i leihau costau gwrtait. Yn ychwanegol, gallai gyfiawnhau cael llafur ychwanegol ar y fferm sy'n cael ei ddefnyddio i roi sarn a bwyd i'r da byw, i odro dros dro etc pan nad oes gwaith i'w wneud ar y tir âr. Hefyd, pan geir system cig eidion ar fferm laeth fe fydd honno'n manteisio ar yr offer bwydo a'r peiriannau ychwanegol sydd yno i'r fuches laeth yn bennaf. Efallai na fyddai uned cig eidion ar ei phen ei hun yn cyfiawnhau gorbenïon o'r fath.

Serch hynny, ymarfer dilys a diddorol yw cyfrif proffidioldeb pob hectar fel man cychwyn ar gyfer rhagor o drafod ac fel rhan hanfodol o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae pob trosglwyddiad da byw a chnydau yn yr adroddiad hwn wedi'i wneud yn ôl y gwerth masnachol llawn a fyddai wedi'i sicrhau pe bai'r trosglwyddiad wedi'i wneud ar y farchnad agored.

### Dyranïad gorbenïon Upper Pendre fel % o gyfanswm y costau

	Llafur	Pŵer/peiriannau	Eiddo/gweinyddiaeth	Rhent/cyllid
Buches laeth	55	55	80	45
Tir âr	20	20	5	40
Cig eidion	25	25	15	15



## 7 Costiadau cynydu

Mae data am y Maint Elw Gros wedi'i ddarparu am flynyddoedd cynaeafu 2016 a 2017 ond dim ond data am y Maint Elw Net sydd ar gael am y flwyddyn ddiweddaraf. Darparwyd y data cymaradwy gan Richard Meredith, Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth Grawnfwydydd a Hadau Olew yr AHDB ar gyfer Cymru a Gorllewin Lloegr. Dim ond data am flwyddyn gynhaef 2016 sydd ar gael ar hyn o bryd. Hefyd, mae wedi rhoi canlyniadau treial rhygwenith ar y fferm monitro tir â'r yn Sir Henffordd ar gyfer blwyddyn gynhaef 2015.

### Data gwenith gaeaf/£/ha

	Upper Pendre	Cyfartaledd 2016 yr AHDB	Upper Pendre 2016-17
Cynnyrch grawn t/ha	8.75	8.49	9.5
<b>Allbwn/ha</b>	<b>1327.5</b>	<b>1138.72</b>	<b>1497.50</b>
<b>Costau newidiol</b>			
Hadau	73.77	62.00	82.30
Gwrtaith	190.50	210.00	155.00
Chwistrellau a chemegion	292.00	205.00	192.00
Costau eraill	21.88	15.00	23.75
<b>Cyfanswm</b>	<b>578.15</b>	<b>492.00</b>	<b>453.05</b>
<b>Maint Elw Gros/ha</b>	<b>749.36</b>	<b>646.72</b>	<b>1044.45</b>
<b>Gorbenion</b>			
Llafur			266.76
Dibrisiant peiriannau			65.51
Trwsio peiriannau			133.38
Ynni a phŵer			58.73
Contractwyr/hurio			32.71
Eiddo/gweinyddu			15.72
Rhent a Chyllid			158.89
<b>Cyfanswm</b>			<b>731.70</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>			<b>312.75</b>

### Rhagdybiaethau (yn gymwys i bob cnwd)

- ☐ Mae'r grawn wedi'i brisio yn ôl y pris y gallai'r fferm fod wedi'i gael o'i werthu (neu'r hyn y byddai wedi'i gostio i'w brynu)
- ☐ Mae'r rhygwenith wedi'i brisio yn ôl pris gwenith, a rhyg yn ôl pris barlys (trafodaeth gyda'r ffermwr)
  - Mae gwellt wedi'i brisio yn ôl £75/tunnell
  - Pris sychu grawn yw £2.50/tunnell (fel arfer bydd angen sychu 2%, sef o 16% i 14%, yn ôl £1.25/1%/tunnell)
- ☐ Dyrannwyd y gorbenion yn ôl y dadansoddiad cynharach, wedyn fesul % o bob cnwd a dyfwyd. Mae'r grawnfwydydd i gyd wedi'u hau yn y gaeaf gan ddefnyddio dulliau tebyg wedyn i'w sefydlu a'u trin.
  - Gweler Atodiad 1 i gael dadansoddiad llawn o'r Maint Elw Gros a'r sensitifwydd (cynnyrch a £/tunnell)





Data barllys gaeaf/£/ha

	Upper Pendre	Cyfartaledd 2016 yr AHDB	Upper Pendre 2016-17
Cynnyrch grawn t/ha	7.8	6.7	8
<b>Allbwn/ha</b>	<b>1209.6</b>	<b>847.00</b>	<b>1284.25</b>
<b>Costau newidiol</b>			
Hadau	50.31	69.00	81.07
Gwrtaith	148.00	146.00	123.00
Chwistrellau a chemegion	130.00	133.00	215.00
Costau eraill	19.50	12.00	20.00
<b>Cyfanswm</b>	<b>347.81</b>	<b>360.00</b>	<b>439.07</b>
<b>Maint Elw Gros/ha</b>	<b>861.79</b>	<b>487.00</b>	<b>845.18</b>
<b>Gorbenion</b>			
Llafur			268.29
Dibrisiant peiriannau			60.85
Trwsio peiriannau			134.14
Ynni a phŵer			59.07
Contractwyr/hurio			32.90
Eiddo/gweinyddu			15.80
Rhent a Chyllid			159.80
<b>Cyfanswm</b>			<b>730.85</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>			<b>114.33</b>

Data rhygwenith gaeaf/£/ha

	Upper Pendre 2015-16		Upper Pendre 2016-17
Cynnyrch grawn	8.5		7.75
<b>Allbwn/ha</b>	<b>1395.00</b>		<b>1326.25</b>
<b>Costau newidiol</b>			
Hadau	70.74		69.69
Gwrtaith	190.50		155.00
Chwistrellau a	140.00		76.00
Costau eraill	21.25		19.38
<b>Cyfanswm</b>	<b>422.49</b>		<b>320.07</b>
<b>Maint Elw Gros/ha</b>	<b>972.51</b>		<b>1006.19</b>
<b>Gorbenion</b>			
Llafur			269.94
Dibrisiant			61.27
Trwsio peiriannau			134.97
Ynni a phŵer			59.43
Contractwyr/hurio			33.10
Eiddo/gweinyddu			15.91
Rhent a Chyllid			160.78
<b>Cyfanswm</b>			<b>735.40</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>			<b>270.79</b>



#### Data rhyg gaeaf/£/ha

	Upper Pendre 2015-16		Upper Pendre 2016-17
Cynnyrch grawn			6.9
<b>Allbwn/ha</b>			<b>1055.40</b>
<b>Costau newidiol</b>			
Hadau			52.29
Gwrtaith			123.00
Chwistrellau a			243.00
Costau eraill			17.25
<b>Cyfanswm</b>			<b>435.54</b>
<b>Maint Elw Gros/ha</b>			<b>619.86</b>
<b>Gorbenion</b>			
Llafur			276.29
Dibrisiant			62.69
Trwsio peiriannau			138.15
Ynni a phŵer			60.83
Contractwyr/hurio			33.88
Eiddo/gweinyddu			16.28
Rhent a Chyllid			164.57
<b>Cyfanswm</b>			<b>752.69</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>			<b>-132.83</b>

#### Crynodeb

- ☐ Gwenith a rhygwenith yw'r cnydau mwyaf proffidiol.
- ☐ Mae gan bob cnwd Faint Elw Gros/hectar sy'n uwch na'r cyfartaledd
- ☐ Mae gan bob cnwd heblaw rhyg Faint Elw Net positif.
- ☐ Yn 2017 fu'r rhyg ddim mor llwyddiannus â'r rhygwenith yn sgil yr allbwn is a'r costau newidiol uwch.
- ☐ Does dim dadansoddiad wedi'i wneud eto o werth y rhyg fel porthiant nac o berfformiad y da byw arno.



## 8 Costiadau da byw

Ar hyn o bryd, data i lunio'r Maint Elw Gros a Net ar gyfer y fuches laeth yn unig sydd wedi'i ddarparu. Yn ddelfrydol, dylai'r un cyfrifiad gael ei wneud ar gyfer y system magu stoc ifanc a'r gwahanol fentrau cig eidion. Er hynny, mae'n annhebygol y bydd y rhain yn gwneud yn well a'r fenter laeth o ran perfformiad ariannol.

### Costiadau buchod llaeth (2016-17) £ y fuwch

	Upper Pendre	FAS Cymru 15-16 Buchesi>150 buwch	FAS Cymru 15-16 Pob buches	Traean uchaf buchesi FAS Cymru 15-16
<b>Allbwn</b>	<b>2,158</b>	<b>1,716</b>	<b>1,73</b>	<b>2,242</b>
<b>Costau newidiol</b>				
Dwysfwydydd	669	495	509	607
Milfeddyg a moddion	177	64	65	65
Costau eraill	187	177	176	203
Costau porthiant	69	177	179	174
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,102</b>	<b>913</b>	<b>929</b>	<b>1,049</b>
<b>Maint Elw Gros/buwch</b>	<b>1,056</b>	<b>803</b>	<b>802</b>	<b>1,193</b>
<b>Maint Elw Gros/ha</b>	<b>2,862</b>	<b>1,384</b> <b>(ar sail y data sydd ar gael)</b>		
<b>Gorbenion</b>		Heb fod ar gael	Heb fod ar gael	Heb fod ar gael
Llafur	346			
Dibrisiant peiriannau	78			
Trwsio peiriannau	173			
Ynni a phŵer	76			
Contractwyr/hurio	42			
Eiddo/gweinyddu	119			
Rhent a Chyllid	84			
<b>Cyfanswm</b>	<b>918</b>			
<b>Maint Elw Net y fuwch</b>	<b>138</b>			
<b>Buchod yr hectar</b>	<b>2.71</b>			
<b>Maint Elw Net/ha</b>	<b>375</b>			

### Crynodeb

- ☐ Buches mewnbwn uchel – allbwn uchel sydd â mewnbwn uchel o ran dwysfwydydd
- ☐ Costau'r milfeddyg a'r moddion yn uchel yn sgil problemau mastitis?
- ☐ Perfformiad wedi cyrraedd lefel y traean uchaf o ran Maint Elw Gros
- ☐ Cyfradd stocio uchel gan fod y cylchdro glaswellt wedi perfformio'n dda a bod llawer o borthiant sy'n cael ei brynu neu ei dyfu gartref wedi'i ddefnyddio (gan leihau arwynebedd y porthiant sy'n angenrheidiol a chodi'r gyfradd stocio a'r Maint Elw Gros am bob hectar a ddefnyddir)
- ☐ Ymgynghorydd llaeth fyddai yn y sefyllfa orau i ddadansoddi a mireinio'r perfformiad llaeth



## 9 Trafodaeth

### Perfformiad fesul hectar (£) – 2016-17

	Llaeth	Gwenith	Barlys	Rhygwenith	Rhyg
<b>Allbwn</b>	5,848	1497	1284	1326	1055
<b>Costau newidiol</b>	2,986	453	439	320	435
<b>Maint Elw Gros</b>	2,862	1044	845	1006	620
<b>Gorbenion</b>	2,488	732	731	735	753
<b>Maint Elw Net</b>	374	312	114	271	-133

- ☐ Llaeth sy'n creu'r enillion gorau fesul hectar
- ☐ Gwenith yw'r cnwd sy'n perfformio orau
- ☐ Nid yw'n ymddangos bod rhyg wedi bod yn llwyddiant yn 2017

Mae hyn o leiaf yn rhesymol o amlwg ar sail y data a gasglwyd, ond mae yna faterion ynglŷn â'r fuches laeth y mae angen mynd i'r afael â nhw.

- ☐ Mae'r offer llaeth/parlwr etc yn dod i ddiwedd eu hoes gynhyrchiol ac mae angen penderfynu ar adnewyddu'r rhain at y tymor hir. Ond mae hyn yn fuddsoddiad mawr.
- ☐ Yn y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi amlygu ei hun yn y nifer uwch nag arfer o achosion mastitis sydd wedi'i ddatrys yn rhannol drwy gael clystyrau a leinwyr etc newydd
  - Nid yw mab teulu Thomas, sef Tudor, mor awyddus i gadw buches laeth ac fe hoffai weld y fuches cig eidion yn ehangu. Er hynny, fydd yr enillion o fuches cig eidion byth yn cymharu â'r enillion o fuches laeth sy'n perfformio'n dda.
- ☐ Mae hyn yn arbennig o wir yn achos buches sugno. Mae angen llawer o waith i gynnal buchod sugno ac ar fferm lle mae'r gyfradd stocio'n uchel yn barod maen nhw'n rhy ddrud i'w fforddio. Yn fyr, tir mwy ymylol neu dir llai ffafriol yw'r lle gorau i fuchod sugno.
- ☐ Serch hynny, gall cig eidion o'r fuches laeth ar ffurf croesiadau eidion greu incwm amgen a bod yn broffidiol os gall rhai o'r syniadau isod gael eu rhoi ar waith:
  - Defnyddiwch semen yn ôl rhyw ar y fuches laeth, i leihau nifer y teirw du a gwyn a chael mwy o fuchod, efallai cynifer â 130, i'w croesi â theirw eidion indecs uchel.
  - Defnyddiwch deirw eidion sy'n lloia'n hawdd ac sy'n tyfu'n gyflym, e.e. Charolais, Simmental, ar gyfer pesgi dwys
  - Gall lloi teirw gael eu gadael ar system eidion barlys, eu pesgi'n 12-13 mis oed neu eu hysbaddu ond eu pesgi o hyd ar ddeiet o silwair o ansawdd dda a grawn yn 15-16mis.
  - Gall lloi heffer gael eu pesgi ar system ychydig yn llai dwys ond o dan 20 mis o hyd. Mae yna opsiwn hefyd o werthu rhai o'r rhain fel buchod sugno cadw os ydyn nhw o'r math a'r brid cywir (e.e. croesiad Sim).
  - Peidiwch â mynd ar ôl pwysau trwm iawn ac osgowch gyfnodau cadw. Cadwch y gwartheg i dyfu ar gyflymder da. Os oes yna gyfnod pori, yna peidiwch â chyfyngu eu twf yn ormodol cyn eu troi allan ond GOFALWCH baratoi eu rwmen ar gyfer deiet porthiant drwy leihau swm y dwysfwydydd yn ystod y mis cyn eu troi allan. Dechreuwch ddefnyddio porfeydd ar gylchdro hefyd.
  - Peidiwch ag ofni gwerthu anifeiliaid stôr hefyd os yw hynny'n fanteisiol yn ariannol. Pesgi yw'r rhan leiaf effeithlon o'r system cig eidion. Mae'n cymryd pum gwaith yn fwy o fwyd i fagu cilogram o fraster nag i fagu cilogram o gig heb lawer o fraster
  - Byddai hyn yn symleiddio'r system cig eidion yn fawr. Mae'n gymhleth iawn ar hyn o bryd, sy'n golygu bod gwaith meincnodi'n anodd iawn.



**Atodiad 1 - Maint Elw Gros y Mentrau**

Cnwd	Gwenith gaeaf							
		2015-16			2016-17			
Allbwn		Tunelli	£/tunnell	Incwm		Tunelli	£/tunnell	Incwm
Grawn		8.75	120	1050.00		9.5	130	1235.00
Gwellt		3.7	75	277.50		3.5	75	262.50
Allbwn				<b>1327.50</b>				<b>1497.50</b>
<b>Costau newidiol</b>								
Hadau				73.77				82.30
Gwrtait				190.50				155.00
Chwistrellau				292.00				192.00
Sychu		(£1.25/1%/tunnell)		21.88				23.75
<b>Cyfanswm</b>				<b>578.15</b>				<b>453.05</b>
<b>Maint Elw Gros</b>								
				<b>749.36</b>				<b>1044.45</b>
<b>Gorbenion (cyfran ohonynt)/ha</b>								
Llafur								266.76
Dibrisiant peiriannau								65.51
Trwsio peiriannau								133.38
Tanwydd/olew etc								58.73
Contractwyr/hurio								32.71
Eiddo								8.96
Gweinyddu								6.76
Rhent a Chyllid								158.89
<b>Cyfanswm</b>								<b>731.7</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>								
								<b>312.75</b>
<b>Dadansoddiad sensitifwydd £/ha</b>				<b>£/ha</b>				<b>£/ha</b>
Cynnyrch grawn		plws/minws 0.5t/ha		60.00				65.00
Pris y dunnell		plws/minws £10/t		87.50				95.00



Cnwd	Barlys gaeaf						
	2015-16			2016-17			
Allbwn	Tunelli	£/tunnell	Incwm		Tunelli	£/tunnell	Incwm
Grawn	7.8	107	834.60		8	116	928.00
Gwellt	5	75	375.00		4.75	75	356.25
Allbwn			<b>1209.60</b>				<b>1284.25</b>
<b>Costau newidiol</b>							
Hadau			50.31				81.07
Gwrtaith			148.00				123.00
Chwistrellau			130.00				215.00
Sychu	(£1.25/1%/tunnell)		19.50				20.00
<b>Cyfansw</b>			<b>347.81</b>				<b>439.07</b>
<b>Maint Elw Gros</b>							
			<b>861.79</b>				<b>845.18</b>
<b>Gorbenion (cyfran ohonynt)/ha</b>							
Llafur							268.29
Dibrisiant peiriannau							60.85
Trwsio peiriannau							134.14
Tanwydd/olew etc							59.07
Contractwyr/hurio							32.9
Eiddo							9.01
Gweinyddu							6.79
Rhent a Chyllid							159.8
<b>Cyfanswm</b>							<b>730.85</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>							
							<b>114.33</b>
<b>Dadansoddiad sensitifrwydd £/ha</b>			<b>£/ha</b>				<b>£/ha</b>
Cynnyrch grawn	plws/minws 0.5t/ha		53.50				58.00
Pris y dunnell	plws/minws £10/t		78.00				80.00



Cnwd	Rhygwenith gaeaf	2015-16			2016-17		
Allbwn	Tunelli	£/tunnell	Incwm	Tunelli	£/tunnell	Incwm	
Grawn	8.5	120	1020.00	7.75	130	1007.50	
Gwellt	5	75	375.00	4.25	75	318.75	
Allbwn			<b>1395.00</b>			<b>1326.25</b>	
<b>Costau newidiol</b>							
Hadau			70.74			69.69	
Gwrtaith			190.50			155.00	
Chwistrellau			140.00			76.00	
Sychu	(£1.25/1%/tunnell)		21.25			19.38	
<b>Cyfanswm</b>			<b>422.49</b>			<b>320.07</b>	
<b>Maint Elw Gros</b>			<b>972.51</b>			<b>1006.19</b>	
<b>Gorbenion (cyfran ohonynt)/ha</b>							
Llafur						269.94	
Dibrisiant peiriannau						61.27	
Trwsio peiriannau						134.97	
Tanwydd/olew etc						59.43	
Contractwyr/hurio						33.10	
Eiddo						9.07	
Gweinyddu						6.84	
Rhent a Chyllid						160.78	
<b>Cyfanswm</b>						<b>735.40</b>	
<b>Maint Elw Net/ha</b>						<b>270.79</b>	
<b>Dadansoddiad sensitifrwydd £/ha</b>			<b>£/ha</b>	<b>£/ha</b>			
Cynnyrch grawn	plws/minws 0.5t/ha		60.00			65.00	
Pris y dunnell	plws/minws £10/t		85.00			77.50	



Cnwd	Rhyg gaeaf					
	2015-16			2016-17		
Allbwn	Tunelli	£/tunnell	Incwm	Tunelli	£/tunnell	Incwm
Grawn				6.9	116	800.40
Gwellt				3.4	75	255.00
Allbwn						<b>1055.40</b>
<b>Costau newidiol</b>						
Hadau						52.29
Gwrtaith						123.00
Chwistrellau						243.00
Sychu						17.25
<b>Cyfanswm</b>						<b>435.54</b>
<b>Maint Elw Gros</b>						
						<b>619.86</b>
<b>Gorbenion (cyfran ohonynt)/ha</b>						
Llafur						276.29
Dibrisiant peiriannau						62.69
Trwsio peiriannau						138.15
Tanwydd/olew etc						60.83
Contractwyr/hurio						33.88
Eiddo						9.28
Gweinyddu						7.00
Rhent a Chyllid						164.57
<b>Cyfanswm</b>						<b>752.69</b>
<b>Maint Elw Net/ha</b>						
						<b>-132.83</b>
<b>Dadansoddiad sensitifrwydd £/ha</b>			<b>£/ha</b>			<b>£/ha</b>
Cynnyrch grawn	plws/minws 0.5t/ha		0.00			58.00
Pris y dunnell	plws/minws £10/t		0.00			69.00





Upper Pendre	Maint Elw Gros Llaeth		
Nifer y buchod		175	
		<b>2016-17</b>	
<b>Allbwn</b>		<b>£ cyfanswm</b>	<b>£/buwch</b>
Gwerthiant llaeth		366,384.00	
Buchod wedi'u difa		17,020.00	
Lloi a drosglwyddwyd allan		31,650.00	
Llai			
Heffrod a drosglwyddwyd i mewn		37,400.00	
<b>Allbwn</b>		<b>377,654.00</b>	<b>2,158.02</b>
<b>Costau newidiol</b>			
Prynu bwyd		81,845.00	
Prynu sarn		9,511.00	
Grawn cartref		35,100.00	
Gwellt cartref		4,125.00	
Milfeddyg a moddion		31,002.00	
Bridio, AI etc		15,678.00	
Amrywiol		3,474.00	
Costau porthiant		12,072.00	
<b>Cyfanswm</b>		<b>192,807.00</b>	<b>1,101.75</b>
<b>Maint Elw Gros</b>		<b>184,847.00</b>	<b>1,056.27</b>
<b>Gorbenion</b>			
Llafur		60,500.00	
Dibrisiant peiriannau		13,722.00	
Trwsio peiriannau		30,250.00	
Tanwydd/olew etc		13,320.00	
Contractwyr/hurio		7,418.00	
Eiddo		11,824.00	
Gweinyddu		8,915.00	
Rhent a Chyllid		14,741.00	
<b>Cyfanswm</b>		<b>160,690.00</b>	<b>918.23</b>
<b>Maint Elw Net</b>		<b>24,157.00</b>	<b>138.04</b>
<b>Ha glaswellt/porthiant a ddefnyddiwyd</b>		<b>64.40</b>	
<b>Maint Elw Gros/ha</b>		<b>2,870.30</b>	
<b>Maint Elw Net/ha</b>		<b>375.11</b>	